Rhaglen Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDC) yng Nghymru
Diweddariad ar y Rhaglen - Mehefin 2023

Rhennir Diweddariadau ar Raglen Diwygio'r GDC yn chwarterol, er mwyn darparu gwybodaeth gyfredol am waith y rhaglen a'r cyfleoedd hyfforddi, a'r gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu parhaus.

Gofynnwn i chi sicrhau bod y diweddariad hwn yn cael ei rannu â phob aelod o'ch tîm deintyddol, gan fod y wybodaeth yn berthnasol i bob rôl a chyfrifoldeb.

Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

- Metrigau ar gyfer 2023/24 - fe'u cyhoeddwyd ar drothwy'r Nadolig gan roi 3 mis i bractisau ystyried eu hopsiynau ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Roedd y digwyddiadau ymgysylltu ym mis Ionawr 2023 yn gyfle i drafod diwygio'r system a chontractau ac i holi cwestiynau am y flwyddyn i ddod.
- Canllawiau – lliniaru'r broses i gleifion ag anghenion mawr a rheolaeth diwedd blwyddyn gan roi'r opsiwn i Fyrddau Iechyd gario mwy o danwariant drosodd er mwyn sicrhau bod cyllid deintyddol yn parhau i gael ei fuddsoddi mewn deintyddiaeth.
- Hysbysiad i Amrywio'r Contract – ffurfioli'r cynnig a wnaed cyn y Nadolig ac ar hyn o bryd rydym yn aros i weld pa gyfran o bractisau a fydd yn dewis gweithio o dan y cynnig i ddiwygio ar gyfer 2023/24. Dengys arwyddion cynnar fod y mwyafrif o bractisau am barhau i wneud hynny.
- Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddeintyddiaeth – a gellir darllen yr ymateb yma: Deintyddiaeth (senedd.cymru)

Bwrdd Rhaglen Diwygio'r GDC – Grŵp Goruchwylio Strategol Deintyddol

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Grŵp Goruchwylio Strategol ar 29 Mawrth 2023. Y prif bwyntiau trafod oedd:

- Egwyddorion Gofal, a gafodd eu dal yn ôl oherwydd y pwysau ar bractisau i weithio'n wahanol, yn ogystal â'r gwaith sy'n ymwneud â llwybrau iechyd y mae Byrddau Iechyd yn dechrau ei wneud fel rhan o'r gwaith ehangach, gan uno ar sail dull unwaith i Gymru, ble y bydd gan yr Egwyddorion Gofal ran strategol iawn i'w chwarae.
- Ymateb i'r adroddiad Ymchwiliad Deintyddol. Derbyniwyd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn a oes angen arolwg cyhoeddus ynghylch fflworeiddio dŵr.

Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer diwedd mis Mehefin 2023.

Cyfathrebu â'r Cyhoedd

Trefnwyd cyfarfod ar y cyd ag aelodau o ffrwd waith 3 (ymgysylltu â rhanddeiliaid) a ffrwd waith 4 (ymgysylltu proffesiynol) i drafod y gwahanol opsiynau ar gyfer cyfathrebu â'r cyhoedd/cleifion.

Cynllunio'r Gweithlu Deintyddol

Mae AaGIC yn ymroddedig i drawsnewid y gweithlu i sicrhau Cymru iachach. Mae'r adran ddeintyddol yn parhau i arwain y broses o ddatblygu Cynllun y Gweithlu Deintyddol i Gymru. Dylai'r Cynllun:

- Ddeall yr hyn sy'n ysgogi galw am wasanaethau Deintyddol ar hyn o bryd a nodi'r prif ffactorau fydd yn dylanwadu ar y galw dros y 10 mlynedd nesaf, gan gynnwys datblygiadau technolegol a'r newidiadau mewn darparu gofal iechyd gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar senario i ddiogelu'r broses o ddarparu gofal yn y dyfodol
- Nodi'r heriau a'r prif faterion sy'n ymwneud â'r ochr gyflenwi ar draws ystod o grwpiau a meysydd proffesiynol ledled Cymru a darparu fframwaith ar gyfer ffynonellau cyflenwi y dyfodol
- Datblygu camau gweithredu eglur ac wedi'u costio i ddatblygu modelau gweithlu cynaliadwy a datblygu'r broses o gyflawni'r model gwasanaethau Deintyddol, gan adnabod y math o wasanaethau sydd angen gwahanol atebion ledled Cymru (er enghraifft, iechyd gwledig)
- Darparu fframwaith ar gyfer camau gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eglur
- Amlinellu penderfyniadau ar gomisiynu addysg a hyfforddiant yn y dyfodol

Cymerwch gip ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma https://heiw.pagetiger.com/dental-workforce-plan-a

Os hoffech ddysgu sut i gyfrannu at Gynllun y Gweithlu Deintyddol gallwch gysylltu â heiw.dentalworkforceplan@wales.nhs.uk

Ym mis Mawrth fe wnaethom lansio'r Ymgyrch Ddeintyddol 'Hyfforddi, Gweithio, Byw' a fydd yn ein cynorthwyo i greu cyfleoedd i ddenu, i ddatblygu ac i gynyddu'r gweithlu deintyddol. Bydd yr ymgyrch recriwtio a chadw hon yn parhau am y tair blynedd nesaf. Dim ond dechrau'r daith yw hon wrth i ni ddatblygu cynllun ar gyfer y gweithlu deintyddol a cheisio creu cyfleoedd i ddenu, datblygu a chynyddu'r gweithlu yma yng Nghymru. Mae'r ymgyrch gychwynnol yn canolbwyntio ar ddeintyddion, ond bydd y gweithlu deintyddol ehangach – nyrsys deintyddol, hylenyddion a therapyddion yn cael eu cynnwys o hyn ymlaen. Deintyddol | Hyfforddi Gweithio Byw | Cymru

Datblygu'r Gweithlu Deintyddol

Lansiwyd Porth Arweinyddiaeth Deintyddol GWELLA AaGIC (ar-lein) ar 19 Ebrill. Cynlluniwyd y digwyddiad i gyflwyno gweithwyr deintyddol proffesiynol i safle GWELLA AaGIC a'i adnoddau arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn i'r gweithwyr proffesiynol hynny y mae'n ofynnol iddynt (neu y bydd yn ofynnol iddynt) ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i arwain eu timau'n effeithiol yn y gymuned leol, y system iechyd neu ar lefel genedlaethol allu gweld sut y gall AGIC gynorthwyo â hyn.

Dyma'r ddolen: https://leadershipportal.heiw.wales/go/ly8ee7 sy'n dangos y cyflwyniad a gyflwynodd ein partner digidol GWELLA yn ystod yr achlysur lansio. Mae'r sleid olaf yn cynnwys ffurflen gyswllt i chi allu gwneud cais i gofrestru ar gyfer porth Arweinyddiaeth GWELLA a dechrau ar eich taith arweinyddiaeth gydag AaGIC.

Mae gennym hefyd dudalen Arweinyddiaeth Ddeintyddol benodedig. Mae'r hyb deintyddiaeth ar gael yma: Hyb Arweinyddiaeth Deintyddiaeth. Bydd hyn yn eich galluogi i edrych ar y digwyddiadau, adnoddau a mentrau yn fanylach er mwyn eich helpu i ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau arweinyddiaeth. Meddyliwch am eich anghenion dysgu o ran arweinyddiaeth, yn ogystal ag anghenion dysgu eich tîm hefyd. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i ychwanegu at yr adnoddau hyn, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth mewn galwedigaethau deintyddol.

Parthed y cyhoeddiad diweddar gan y Prif Swyddog Deintyddol ar gyfer therapyddion deintyddol, hylenyddion deintyddol a thechnegwyr deintyddol clinigol sy'n darparu triniaeth y GIG mewn practisau deintyddol cyffredinol y GIG (Cymru), rydym bellach yn llunio cyrsiau hyfforddi a datblygu i gynorthwyo unrhyw un sydd wedi cofrestru ac sydd am ymarfer o dan y trefniadau newydd hyn. Bydd cyfres o raglenni a chyrsiau ar ffurf dysgu 'ymarferol' a chymysg i gefnogi'r Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol. Cysylltwch â kathryn.marshall4@wales.nhs.uk

Rydym yn parhau i ddatblygu rhaglen NEBDN AaGIC. Rydym bellach ar y cam dethol, ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ddod i ben ddiwedd mis Mawrth. Cafwyd diddordeb gan ddarpar hyfforddeion nyrsys deintyddol o bob cwr o Dde a Gorllewin Cymru, a derbyniwyd y mwyafrif o geisiadau o ardal Caerdydd a'r Fro. Bydd y rhaglen astudio lawn yn dechrau ddechrau'r haf. Ein swyddog cymorth hyfforddi Nyrsys Deintyddol yw Bethan Withey (Bethan.withey2@wales.nhs.uk).

Rydym bellach yn nhri mis olaf y cwrs Addysg Iechyd y Geg ar gyfer nyrsys deintyddol cymwysedig a chofrestredig y GDC. Cynllun peilot oedd y cwrs hwn ac mae'r rhaglen yn cael ei gwerthuso'n llawn ar hyn o bryd. Bydd y cwrs nesaf yn dechrau fis Awst 2023 a dylai'r Nyrsys Deintyddol sydd â diddordeb gysylltu â Bethan Withey fel y nodir uchod.

Diweddariad ar Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

Mae'r gwaith canlynol yn barhaus a rhoddir diweddariad pellach maes o law:

Holiaduron cleifion:

Rydym yn parhau i arolygu cleifion drwy gyfrwng ein harolygon cyffredinol, brys ac orthodonteg drwy anfon negeseuon testun, e-bost neu lythyr. Mae'r adborth yn parhau i fod yn gadarnhaol ac yn canolbwyntio ar y misoedd blaenorol. Yn ystod y flwyddyn ariannol 22/23, fe wnaethom lwyddo i arolygu dros 150 000 o gleifion sydd 10 gwaith yn fwy na'r blynyddoedd blaenorol.

Datganiadau gan Bractis: Rydym yn cefnogi Byrddau Iechyd a Phartneriaeth Cydwasanaethau i ddiweddaru datganiadau cyflog practisau i ystyried metrigau 23/24. Dylid diweddaru datganiadau'r practis erbyn diwedd mis Mai 2023.

Gwaith Ymyriadau Metrigau eDEN 23/24 + eDEN Y/E: Rydym yn gobeithio y bydd y data lliniaru 22/23 a metrigau 23/24 ar gael ar eDen yn ystod wythnos gyntaf mis Mai a byddwn yn anfon gohebiaeth at ddefnyddwyr ar ôl cwblhau'r broses ddiweddaru. Yn ogystal â'r ohebiaeth hon, fel cam cyntaf dylai'r defnyddwyr gyfeirio at y

canllawiau a'r nodiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac a ddangosir ar eDen ar gyfer unrhyw ymholiadau. Gellir anfon unrhyw gwestiynau ychwanegol ynglŷn â data at DataServicesSupport@nhsbsa.nhs.uk.

Gofal Sylfaenol Un

Mae tudalennau deintyddol Gofal Sylfaenol Un wedi'u hailddylunio er mwyn darparu mynediad haws at wybodaeth. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/pynciau1/iechyd-deintyddol-cyhoeddus/ a rhennir y dolenni ar gyfer gohebiaeth ar y wefan yn fuan.

Cofiwch roi gwybod i ni os hoffech weld unrhyw beth arall ar y wefan!

Cymryd rhan

Rydym yn croesawu adborth a chwestiynau gan **bob aelod** o'r tîm deintyddol. Efallai nad oes gennym yr ateb i bopeth ar hyn o bryd, ond rydym yn casglu'r cwestiynau ac yn eu defnyddio i lunio ein rhaglen a'n dulliau cyfathrebu (e.e., dogfennau cwestiynau cyffredin a digwyddiadau ymgysylltu), felly cofiwch barhau i ofyn cwestiynau a rhoi eich adborth drwy dentalpublichealth@wales.nhs.uk